# Y Gyfraith

Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sicrhau bod plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg llawn amser effeithlon.

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhieni / gofalwyr y mae eu plant, o oedran ysgol gorfodol, yn absennol o'r ysgol heb reswm da yn cyflawni trosedd.

**Gall yr Awdurdod Addysg Lleol roi rhybudd cosb benodedig am absenoldeb heb awdurdod.**

Gellir rhoi rhybudd cosb benodedig i fyfyriwr sydd â 10 absenoldeb heb awdurdod. Bydd bod yn hwyr yn gyson yn cyfrif tuag at absenoldebau heb awdurdod.

Os telir o fewn 28 diwrnod, £60 yw'r ddirwy. Os telir wedi 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod £120 fydd y gosb. Os na thelir y gosb yn llawn erbyn y 43ain diwrnod, gellir cymryd camau cyfreithiol.

**Dylech fod yn ymwybodol, er y byddwch, efallai, yn rhoi rheswm dros yr absenoldeb, mai'r ysgol sy'n penderfynu os cofnodir yr absenoldeb fel absenoldeb a awdurdodwyd neu fel un heb awdurdod.**

**Os hoffech drafod y mater hwn, cysylltwch â'r ysgol.**

# Talu

Bydd y trefniadau ar gyfer talu wedi eu nodi ar y rhybudd cosb ac ar wefan Cyngor Sir Gwynedd.

Bydd peidio â thalu rhybudd cosb yn sbarduno erlyniad o dan Adran 444 Deddf Addysg 1996. Ceir rhagor o fanylion yng Nghod Ymddygiad Lleol Cyngor Sir Gwynedd.

---

**Os ydych yn ofni nad yw eich plentyn wedi mynd i'r ysgol, dylech ffonio'r ysgol ar unwaith.**

**Os oes gennych UNRHYW bryderon am bresenoldeb yn yr ysgol, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol neu â'r Swyddog Lles Addysg.**

**Gallwch gysylltu â'r Swyddog Lles Addysg drwy'r ysgol.**

---

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Phennaeth yr Ysgol neu â'r

Adran Addysg Gwynedd,
Cyngor Gwynedd, Caernarfon
LL55 1SH

Ffôn – 01766 771000

GWASANAETH LLES ADDYSG

# RHYBUDDION COSB BENODEDIG

## Ar gyfer absenoldeb heb awdurdod o'r ysgol

*Po selocaf y bydd plant yn mynd i'r ysgol*
*Po fwyaf y byddant yn ei gyflawni*

**"Mae prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hollbwysig ar gyfer dysgu'n llwyddiannus a hynny o'r adeg y bydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol."**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Consortiwm Gogledd Cymru · North Wales Consortium

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwyliau

Mae cyfanswm o **175 o ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau ysgol** mewn blwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i deuluoedd:

- Dreulio amser gyda'i gilydd
- Mynd ar ymweliadau teuluol a diwrnodau allan
- Mynd ar wyliau
- Mynd i siopa
- Mynychu apwyntiadau rheolaidd

Ni roddir caniatâd i fyfyrwyr fod yn absennol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Rhoddir caniatâd i unrhyw absenoldeb o'r fath yn ôl disgresiwn y Pennaeth.

Mae cymryd gwyliau yn ystod y tymor yn effeithio o ddifri ar bresenoldeb eich plentyn ac yn ei dro ar eu cyrhaeddiad.

Os eir ar wyliau heb awdurdod, gallai hyn arwain at roi Rhybudd Cosb Benodedig i chi.

*Dylid rhoi blaenoriaeth i fod yn bresennol. Os oes unrhyw broblemau, cysylltwch â'r ysgol ar unwaith.*

# Ffeithiau am Bresenoldeb

**Os yw presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn 100% byddant yn gallu gwneud y gorau o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.**

**Mae plant sydd â phresenoldeb da iawn yn fwy tebygol o ennill 5 TGAU gyda graddau A i C neu gymwysterau cyfwerth.**

---

**Presenoldeb o 91.1% = colli 17 diwrnod o'r ysgol mewn un flwyddyn.**

**Mae colli 17 diwrnod mewn blwyddyn hefyd yn golygu gollwng 1 gradd TGAU (ar gyfartaledd)**

---

**Mae plant â phresenoldeb gwael yn llai tebygol o ennill 5 TGAU gyda graddau A * - C.**

**Presenoldeb o 82.1% = colli 34 diwrnod o'r ysgol mewn un flwyddyn.**

*Bydd presenoldeb gwael yn cael effaith ddifrifol ar addysg, moeseg gwaith a chyfleoedd bywyd.*

**Bydd myfyriwr a phresenoldeb o 90% ar ddiwedd y flwyddyn ysgol wedi colli pedair wythnos gyflawn o ysgol.**

**Byddai 90% dros 5 mlynedd yn yr ysgol uwchradd yn cyfateb i hanner blwyddyn ysgol.**




**Golau Coch**
Colled ddifrifol o ddysgu sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar **Gyflawniad a Chyfleoedd Bywyd** eich plentyn.

**Golau Oren**
Yn absennol o'r ystafell ddosbarth am hyd at dair wythnos a cholli swm sylweddol o addysg.

**Golau Gwyrdd**
Yn bresennol ~~ar~~ gyfer pob gwers a gweithgaredd cymdeithasol.

*Pan fo modd dylid trefnu apwyntiadau meddygol a deintyddol y tu allan i oriau ysgol.*